

# Rheoli chwyn wrth gynhyrchu llysiau yn y cae

## TAFLEN GWYBODAETH

Mae rheoli chwyn mewn cynydu llysiau yn y cae yn hanfodol er mwyn cadw cynnyrch ac ansawdd ac atal problemau wrth gynaeafu. Mae rheoli chwyn yn effeithiol hefyd yn atal hadau chwyn rhag cynyddu'n ddiangen yn y banc hadau pridd, ar gyfer cynydu yn y cylchdro yn y dyfodol. Gall integreiddio opsiynau â chemegolion a heb gemegolion helpu i atal ymwrthedd i chwynladdwyr a sicrhau bod y cemeg bresennol yn gallu bod yn effeithiol cyhyd â phosibl.


### Pam rheoli chwyn?

- Gall chwyn leihau eich cynnyrch; gall rheoli'r rhain wella eich elw.
- Gall hadau chwyn gael effeithiau hirhoedlog mewn priddoedd ac effeithio ar gylchdroadau cynydu yn y dyfodol.
- Yn ystod cynaeafu, gall chwyn 'halogi' cynydu, gan achosi problemau sy'n lleihau cynnyrch, lleihau ansawdd cynnyrch, a chynyddu'r costau o lanhau a didoli ar ôl y cynaeafu.
- Gall chwyn letya plâu a chlefydau sy'n effeithio ar iechyd a chynnyrch cynydu



### Y rhai sydd fwyaf cyfrifol, ac ystyriaethau

Mae chwyn cyffredin llysiau mewn caeau yn cynnwys:



Bydd amrywiaethau'n amrywio gyda mathau o bridd lleol a chylchdroadau.




Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**





## Y tri chonglfaen o reoli chwyn â chemegolion

### Adnabod eich cnydau


Mae gan gnydau gwahanol dueddiad gwahanol o ran cystadlu â chwyn. Gall cael cnydau sy'n gallu cynhyrchu canopi da, i'r ddaear cyn i chwyn dyfu, helpu i reoli effeithiau chwyn. Edrychwch ar argymhellion y gwneuthurwr ar gyfer dwyseddau plannu; yn aml, mae hyn yn caniatáu plannu cnydau'n drwchus er mwyn osgoi cystadleuaeth gan chwyn.

### Adnabod eich chwyn

Mae chwyn yn digwydd mewn cylchoedd naturiol sy'n ymwneud â mathau o rywogaethau a grwpiau o chwyn. Gall deall patrymau calendr cyffredinol chwyn eich helpu i gynllunio.

### Adnabod eich chwynladdwyr

Mae gan chwynladdwyr weithgareddau gwahanol sy'n gweithredu cyn plannu, cyn ymddangosiad ac ar ôl ymddangosiad. Gallant fod yn chwynladdwyr gweddilliol neu gyswllt a thargeddu gwahanol grwpiau o chwyn a chnydau. Gall darganfod pa gemegolion sy'n gweithio ar gyfer gwahanol gnydau a chwyn leihau'r mathau sy'n cael eu prynu. Hefyd, ystyriwch werthuso'r defnydd o gemegolion gydag 'estyniad o ganiatâd ar gyfer mân ddefnydd' (**EAMU**) (gweler yr adnoddau am fwy o wybodaeth)



### Dulliau rheoli heb gemegolion

Wrth ystyried dulliau organig, mewnbyn isel a chynaliadwy, rydym am symud i ffwrdd o fewnbyn cemegol. Gall rheolaethau amgen gynnwys cynhyrchu'r canlynol:

**Hen welyau hadau** - Yn gyffredinol, mae'r rhain yn cynnwys clirio ardal, gan ganiatáu i'r chwyn egino, ac yna clirio'r chwyn i leihau nifer yr hadau o chwyn yn y safle dan sylw. Gellir cyflawni safleoedd heb chwyn hefyd trwy gyfuniadau o orchuddio tir, hofio, a hyd yn oed gwresogi i ladd chwyn pan maent yn egino, neu eu hatal rhag egino'n



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**



Ilwyddiannus yn llwyr.



**Gorchuddio cynydau** - Gall cynydau gorchudd weithio'n dda er mwyn osgoi priddoedd moel lle gall chwyn ymsefydlu. Defnyddir y rhain yn aml ar y cyd â thrin lleiniau ac mae opsiynau cyffredin yn cynnwys meillion a ffacbys. Mae angen rhyw fath o ddysychiad o'r cnwd gorchudd a all fod yn fecanyddol neu hunan-sychu (yn achos ffacbys yn dilyn y rhew cyntaf). Gellir rhoi deunyddiau cnwd gorchudd wedi'u sychu mewn priddoedd a phlannu ynddynt, ar ôl trin y tir, neu gall plannu uniongyrchol i mewn i ddeunydd cnwd gorchudd wedi'u sychu fod yn

strategaeth effeithiol. **Gall offer fel peiriannau rholio a chrimpio gynorthwyo gyda hyn.**

**Gorchuddio'r pridd** - Mae gorchuddio'r pridd yn rhoi rhwystr corfforol rhwng y pridd a'r amgylchedd, gan amddiffyn rhag hadau chwyn yn cael eu dosbarthu ac atal golau ar gyfer egino a thyfiant chwyn. Mae ffilmiau a ddefnyddir fel gorchudd pridd ar gael yn hawdd fel opsiynau bioddiraddadwy y dyddiau hyn. Er bod gan y rhain y fantais o fod yn fwy ecologyfeillgar, maent yn cael eu defnyddio unwaith yn unig, gan ychwanegu at eich costau rhedeg bob blwyddyn. Ar y llaw arall, gellir aildefnyddio gorchuddion polypropylen am nifer o flynyddoedd

Mae'n bwysig bod unrhyw gorchuddion organig a ddefnyddir yn **safon PS100** i sicrhau na fyddant yn dod â'u problemau eu hunain o halogi gan chwyn. Os ydych chi'n defnyddio eich gorchudd organig eich hun, gwnewch yn siŵr fod compostio digonol wedi digwydd i wneud gweddillion a hadau chwyn yn llai hyfyw ar gyfer tyfu eto. **Mae hefyd yn bwysig i osgoi llygru priddoedd â lefelau gormodol o faethynnau!**

Gall fod yn werth ystyried compost awdurdod lleol, gan fod hyn yn tueddu i gael ei gynhyrchu i feini **prawf rheoleiddio PS100 tynn**. Mae ffynonellau eraill o daenfa organig yn cynnwys gwastraff naddion pren o arferion coedyddiaethol fel gan feddygon coed.

### Chwynnu robotig

Erbyn hyn, mae sawl system chwynnu robotig yn bodoli sy'n tueddu i weithio mewn un o ddwy brif ffordd:

1. Gwybod cyfesurynnau GPS y cnwd a chwynnu unrhyw beth y tu allan i'r rhain.
2. Cael camerâu a synwryddion sy'n gallu gwahaniaethu rhwng y cnwd a'r chwyn.



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**



Gall systemau robotig ganiatáu ar gyfer chwistrellu wedi'i dargedu i leihau gordddefnyddio cemegolion a dim ond chwistrellu pan fydd chwyn yn bresennol, a gallant hyd yn oed ymgorffori systemau chwynnu mecanyddol nad ydynt yn gemegol, rheolaeth chwyn thermol neu drydanol. Mae angen ystyriaeth economaidd o'r rhain ar gyfer eich systemau penodol o ran pa mor ymarferol ydynt i'w defnyddio.



### Chwynnu mecanyddol

Gall methodolegau traddodiadol o chwynnu mecanyddol gefnogi rhaglen rheoli chwyn gref. Mae lled rhesi sy'n benodol i'r cnwd yn opsiwn gyda thyfu rhwng y rhesi neu dyfu ar draws y cae drwy hofio neu ddefnyddio peiriannau tyrchu â phigau i godi a symud chwyn.



### Chwynnu trydanol

Blychau wedi'u gosod ar flaen neu ar gefn tractorau, neu gerbydau eraill, neu systemau mwy newydd a gynlluniwyd ag electroadau. Gall y ddau fath gyflenwi cerrynt trydanol trwy'r planhigyn i achosi'r celloedd i farw, ac yn y pen draw, marwolaeth y planhigyn. Gall y rhain fod yn opsiwn allweddol lle mae cyfyngiadau llym ar chwynladdwyr ar waith, gyda manteision eraill yn cynnwys:

- Yn gyflymach na chwynnu â llaw
- Nid yw'n torri priddoedd fel chwynnu mecanyddol
- Nid yw'n lladd plâu nad ydynt wedi'u targedu, dim ond y pla sydd mewn cyswllt uniongyrchol (sy'n lleihau effeithiau ar fioamrywiaeth)

### Adnoddau defnyddiol

[Cyswllt Ffermio - Garddwriaeth](#)

[Prosiect chwynnu robotig Cymru](#)

[Chwynnu trydanol](#)

[AHDB horticulture \(gan gynnwys EAMUs\)](#)



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

